COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD COMISIYNYDD – CYF. DLI 040

Amseru: Arferol

Teitl: Rhaglen Plismona Digidol - risg ar y cyd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Ni chafodd cais Bwrdd Diwygio a Datrys yr Heddlu ar gyfer ariannu'r Rhaglen Blismona Digidol gymeradwyaeth cyn cyhoeddi purdah. Bydd y cais am arian parhaus yn cael ystyriaeth Weinidogol lawn yn dilyn cyfnod yr etholiad. Yn y cyfamser, mae hyn wedi gadael y Portffolio Digidol gyda bwlch ariannu tymor byr annisgwyl o £1.4miliwn.

Ar 28 Ebrill 2017, ysgrifennodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu at bob Comisiynydd yr Heddlu ar ran y Brwdd Diwygio a Datrys yr Heddlu i geisio ymroddiad ar gyfer warantu a rhannu'r risg cefnogi'r Rhaglen Blismona Digidol, gan ddefnyddio fformiwla ariannu'r heddlu i ledaenu'r risg.

Dim ond os na fydd Gweinidogion yn cytuno i ariannu'r Rhaglen a argymhellwyd i'r Ysgrifennydd Cartref ar ôl yr etholiad, bydd y risg yn bodoli. Byddai effaith ariannol o tua £10,000 i Ddyfed-Powys .

Argymhelliad:
Bod y Comisiynydd yn cytuno i warantu'r risg ar y cyd, ar y sail bod pob CHTh wedi ymrwymo i'r cynnig.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / ~~Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad~~ (dileer fel y bo'n briodol)

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad** 6.6.2017